TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET

CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT:

Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020: Aelodaeth Cyngor Gwynedd o Grŵp Gweithredu Lleol LEADER yng Ngwynedd.

Rural Development Programme for Wales 2014 - 2020: Gwynedd Council's Membership of the LEADER Local Action Group for Gwynedd.

AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Cynghorydd Dyfed Edwards – Arweinydd y Cyngor

Councillor Dyfed Edwards – Council Leader

PENDERFYNIAD/DECISION

Fod Cyngor Gwynedd yn ymaelodi â Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd gan enwebu'r Aelod Cabinet – Economi i gynrychioli'r Cyngor.

That Gwynedd Council join the Gwynedd Local Action Group, nominating the Cabinet Member for the Economy to represent the Council.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig (sydd yn rhan o Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd) yn cefnogi datblygu cymunedau a mentrau gwledig.

Bydd y Rhaglen bresennol yng Nghymru (2007 – 2013) yn dod i ben yn gynnar yn 2015 gyda Rhaglen newydd (2014 – 2020) yn cychwyn. Bydd un rhan o'r Rhaglen - LEADER - sydd yn ymwneud â chefnogi datblygu arloesedd a chydweithrediad, yn cael ei reoli ar lefel sirol (rhagwelir bydd oddeutu £4.3M ar gael i Wynedd).

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae strwythur newydd i reoli'r rhaglen yng Ngwynedd yn cael ei sefydlu. Bydd Partneriaeth Economaidd Gwynedd, sy'n rheoli'r rhaglen bresennol, yn dod i ben.

Bydd 'Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd' yn cynnwys unigolion a sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ynghyd â mentrau masnachol a chymdeithasol. Y Grŵp fydd yn gyfrifol am reoli gweithredu LEADER yng Ngwynedd gan benderfynu ar ddefnydd y cyllid fydd ar gael.

Bydd LEADER yng Ngwynedd a Môn yn cael ei weinyddu gan Menter Môn ar ran Grwpiau Gweithredu Lleol yn y ddwy sir unigol. Bydd timau gweithredu a gyflogir gan Menter Môn wedi eu lleoli ar lawr gwlad yn y ddwy sir.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais i ymuno â Grŵp Gweithredu Gwynedd fel aelod o'r sector gyhoeddus. Yr Aelod Cabinet – Economi ac

Adran Economi a Chymuned y Cyngor sydd yn arwain ar ymwneud y Cyngor â chyllid Ewropeaidd gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig.

The Rural Development Programme (which is part of the European Union's Common Agricultural Policy) supports the development of rural communities and enterprises.

The current Programme in Wales (2007 – 2013) will come to an end in early 2015 and the new Programme (2014 - 2020) will commence. One part of the Programme – LEADER – which supports the development of innovation and co-operation will be managed on a county level (an allocation of around £4.3M is anticipated for Gwynedd).

In accordance with the requirements of the Welsh Government, a new structure to manage the programme in Gwynedd is being established. The Gwynedd Economic Partnership, which manages the current programme, will come to an end.

The 'Gwynedd Local Action Group' will include individuals and organisations from the public and voluntary sectors, along with commercial and social enterprises. The Group will be responsible for managing the implementation of LEADER in Gwynedd, and will decide on how to use the available budget.

LEADER in Gwynedd and Anglesey will be administered by Menter Môn on behalf of Local Action Groups in both individual counties. Action teams employed by Menter Môn will be located on the ground in both counties.

Gwynedd Council has received a request to join the Gwynedd Action Group as a member of the public sector. The Cabinet Member – Economy and the Council's Economy and Community Department lead on the Council's involvement with European funding including the Rural Development Programme.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

1. LEADER yw'r unig ran o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020 fydd yn cael ei weithredu yn lleol. Bydd Cronfeydd Strwythurol Ewrop (ERDF ac ESF) hefyd yn cael eu gyrru gan agenda cenedlaethol a rhanbarthol. Dyma'r unig gyfle i lunio a gweithredu ymatebion ar sail anghenion lleol Gwynedd yn unig.

2. Bydd LEADER yn cefnogi cymunedau gofodol a chymunedau o ddiddordeb i ddatblygu a threialu syniadau ac, yn unigryw, mae'r fethodoleg yn annog cymryd risgiau rhesymol. Gall gynnig cyfle i ddatblygu dulliau newydd o ymateb i'r heriau yn wynebu cymunedau gwledig Gwynedd, gan gynnwys ymateb i newid yn narpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

1. LEADER is the only part of the 2014 – 2020 Rural Development Programme for Wales which will be implemented locally. European Structural Funds (ERDF and ESF) will also be driven by a national and regional agenda. This is the only opportunity to develop and implement responses based soley on local needs in Gwynedd.

2. LEADER will support spatial communities and communities of interest to develop and trial ideas and, uniquely, the methodology encourages taking reasonable risks. This could offer an opportunity to develop new methods of responding to the challenges that face Gwynedd's rural communities, including responding to change in the provision of the Council's services.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

   “Dim i’w ychwanegu”

   “Nothing to add.”

2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:-

   “Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”

   “Nothing to add from a propriety perspective”

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

   “Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol”

   “Nothing to add from a financial propriety perspective”

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Dim yn fater lleol

Not a local matter

LLOFNOD /SIGNED

DYDDIAD/DATE

08/01/2015